# Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH

## EDT2 10-05 (p3)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Gorffennaf 2005 |
| **Amser:** | 2:00 - 3.20 |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |
| **Teitl:** | Y Diweddaraf am y Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2006 |

### Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn.

### Crynodeb

2. Gofynnodd y Pwyllgor am y papur hwn. Mae'n rhoi trosolwg bras o'r meysydd canlynol:

- Y trafodaethau ar reoliadau drafft y Cronfeydd Strwythurol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2004;
- Canlyniad cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ar 16-17 Mehefin;
- Y sefyllfa o safbwynt Cymru;
- Fframwaith polisi Cymru - Cymru'n Ennill 2;
- Cydweithredu Tiriogaethol a'r trafodaethau gyda Gweriniaeth Iwerddon;
- Data Eurostat a'i effaith ar bwy sy'n cael ymuno â'r rhaglenni Cydgyfeirio;

- Trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol;
- Yr egwyddorion cytûn ar gyfer y rhaglenni ar ôl 2006 - gweler Atodiad A hefyd;
- Y cynigion ar gyfer meysydd gwaith.

## Cefndir

3. Mae cylch presennol y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn dod i ben ar ddiwedd 2006, ond bydd y gwariant yn parhau tan 2008. Cyhoeddwyd cynigion Comisiwn yr UE ar gyfer cylch newydd o raglenni Cronfeydd Strwythurol a Chydlyniant (2007 - 2013) ym mis Gorffennaf 2004, ac ers hynny cynhaliwyd trafodaethau ar y Persbectif Ariannol (cyllideb yr UE) a rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol ar yr un pryd.

4. Barn Llywodraeth y DU o'r cychwyn cyntaf yw bod cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer cyllideb gyffredinol 2007-13, yn rhy uchel. Mae'n un o chwe Aelod-wladwriaeth sydd wedi gwrthwynebu unrhyw gynigion sy'n fwy na 1.0% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) yr UE. Mae'n credu hefyd y dylai fod cyllideb lai ar gyfer y cronfeydd strwythurol a chydlyniant, dylid canolbwyntio ar yr Aelod-wladwriaethau newydd, a dylai gwladwriaethau mwy cyfoethog fod yn gyfrifol am ariannu eu blaenoriaethau polisi rhanbarthol eu hunain. Esboniodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant safbwynt Llywodraeth y DU ar ddiwygio'r Cronfeydd Strwythurol mewn dau ddatganiad ysgrifenedig i'r Senedd ar 17 Medi a 11 Rhagfyr 2003.

## Canlyniad cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ar 16-17 Mehefin

5. Ar 17 Mehefin, ni lwyddodd Penaethiaid Gwladwriaethau'r UE i ddod i gytundeb ar gyllideb yr EU ar ôl 2006, nac ar y Persbectif Ariannol, ar gyfer y cyfnod 2007-2013. Felly, bydd Llywodraeth y DU yn gyfrifol am geisio sicrhau cytundeb ar y gyllideb yn ystod ei Llywyddiaeth, a ddechreuodd ar 1 Gorffennaf. Mae Gweinidogion y DU wedi datgan eu hymrwymiad i gyrraedd cytundeb, ond yn parhau i alw am adolygiad sylfaenol o wariant yr UE gan gynnwys ad-daliad y DU ("y lleihad") a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Yn ogystal â chael cytundeb y 25 Aelod-wladwriaeth, rhaid i Senedd Ewrop gymeradwyo rhannau o'r gyllideb.

6. Er nad yw'r gyllideb bresennol yn dod i ben am 18 mis arall, byddai cytundeb cynnar yn helpu'r Aelod-wladwriaethau i baratoi ar gyfer y rhaglenni cyllid ar ôl 2006. Nid yw cytuno ar y gyllideb o reidrwydd yn rhoi terfyn ar y trafodaethau ynghylch y cronfeydd strwythurol, sy'n cael eu cynnal ar wahân, ond bydd yn golygu bod yr Aelod-wladwriaethau'n gwybod faint o arian fydd ar gael ar gyfer pob rhaglen a phob Aelod-wladwriaeth. Bydd y dyraniadau fesul Aelod-wladwriaeth ar gyfer y rhaglenni Cydgyfeirio yn seiliedig ar ddata CMC y tair blynedd diwethaf. Ar ôl i'r gyllideb gael ei phennu, gallai gymryd misoedd i gwblhau'r trafodaethau ar y cronfeydd strwythurol. Serch hynny, nod y DU yw gwneud cymaint â phosibl i ddatrys y materion hyn yn ystod ei Llywyddiaeth.

7. O ran y Cronfeydd Strwythurol a Chydlyniant, mae Llywodraeth y DU yn credu y dylai'r gyllideb fod yn llai, er mwyn canolbwyntio ar wledydd tlotaf yr UE, yn enwedig yr Aelod-wladwriaethau newydd, a bod y gwladwriaethau mwy cyfoethog yn gyfrifol am ariannu eu blaenoriaethau polisi rhanbarthol eu hunain. Felly, mae'r holl waith paratoi yng Nghymru yn cael ei wneud heb ragfarnu safbwynt y DU.

8. Mae trafodaethau'r Aelod-wladwriaethau ynghylch Rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol wedi bod yn mynd rhagddynt yn y Gweithgor Camau Strwythurol ers mis Gorffennaf 2004. Mae fy swyddogion yn cyfrannu at y broses hon ac mae safbwynt Cymru'n cael ei gynrychioli yn y cyfarfodydd wythnosol. Er bod rhai materion technegol yn ymwneud â'r Rheoliad Cyffredinol heb eu datrys eto, gwnaed gwaith da ar reoliadau'r ERDF a'r ESF. Bellach, bydd y DU yn cymryd yr awenau fel cadeirydd y grwp, a'i nod fydd sicrhau cytundeb erbyn diwedd y flwyddyn ar bob un o'r materion technegol sydd heb eu datrys fel bod modd cwblhau'r rheoliadau yn fuan ar ôl cytuno ar y gyllideb. Mae rheoliadau'r ESF ac ERDF yn rheoliadau cydbenderfynu gyda Senedd Ewrop, ac mae'n bosibl y bydd ASEau yn cyflwyno mwy o newidiadau.

## Y sefyllfa o safbwynt Cymru

9. Mae rheoliadau drafft y Cronfeydd Strwythurol yn rhagweld y gallai fod hyd at bum rhaglen yng Nghymru yn y dyfodol, yn dibynnu ar ganlyniad unrhyw benderfyniad ar y Persbectif Ariannol. Mae'n bosibl y bydd y Gorllewin a'r Cymoedd yn gymwys am y Rhaglenni Cydgyfeirio (ERDF ac ESF), ac y bydd y Dwyrain yn dal i fod yn gymwys am y Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth (ERDF ac ESF). Os cytunir ar y rheoliadau, bydd rhannau o'r Gorllewin yn debygol o fod yn gymwys am raglen drawsffiniol gyda Dwyrain Iwerddon, a gallai Cymru fod yn rhan o raglenni rhyngwladol hefyd. Mae'r Cronfeydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi symud i'r golofn Amaethyddiaeth.

10. O ran y cynnwys, mae'r rheoliadau yn argymell y dylai'r Rhaglenni ddangos sut y maent yn ystyried anghenion lleol a rhanbarthol ac yn cyflawni agendâu Lisbon a Gothenburg ar gyfer creu economi fwy cystadleuol yn Ewrop sy'n seiliedig ar arloesi a gwybodaeth. Mae hyn yn awgrymu cyfres o raglenni mwy penodol nag o'r blaen.

## Fframwaith Polisi Cymru

11. Bydd fframwaith polisi Cymru ar gyfer unrhyw raglenni newydd yn seiliedig ar fersiwn ddiwygiedig ein strategaeth datblygu economaidd, sef "Cymru'n Ennill", y byddwn yn ymgynghori arni'n fuan. Bydd y blaenoriaethau a fydd yn dylanwadu ar ffocws unrhyw gymorth o'r Cronfeydd Strwythurol yn cael eu nodi yn y ddogfen hon, ynghyd ag unrhyw gynlluniau strategol eraill fel Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005, Cymru: Gwlad Well a Chynllun Gofodol Cymru.

## Cydweithredu Tiriogaethol a'r Trafodaethau â Gweriniaeth Iwerddon

12. Yng nghyd-destun yr Amcan Cydweithredu Tiriogaethol newydd (sy'n cymryd lle rhaglenni Interreg), mae Cymru wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o gydweithio'n strategol gydag Iwerddon a'r

ardaloedd o gwmpas Môr Iwerddon yn gyffredinol ee Gorllewin yr Alban a Gogledd-orllewin Lloegr. Mae cyfleoedd i ddatblygu un fframwaith strategol ar gyfer y rhaglenni trawsffiniol a'r rhaglenni rhyngwladol, gyda chymorth cynnig diweddar y Comisiwn i ehangu'r gweithgarwch sy'n gymwys ar gyfer cydweithio morol dwyochrog yn y llinyn rhyngwladol. Mae'r partneriaid eraill yn frwd o blaid hyn, ac mae WEFO eisoes wedi cynnal cyfarfod dwyochrog gyda chynrychiolwyr o Adran Gyllid Llywodraeth Iwerddon yn Nulyn. Mae hefyd wrthi'n trafod cynigion gyda Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr ar y cyd.

## Data Eurostat a'i effaith ar bwy sy'n cael ymuno â'r Rhaglenni Cydgyfeirio

13. Ar 25 Ionawr 2005, cyhoeddodd Eurostat ystadegau CNC rhanbarthol newydd ar gyfer y blynyddoedd hyd at, a chan gynnwys 2002. Mae'r CNC y pen yn y Gorllewin a'r Cymoedd (WWV) o safbwynt CNC 25 Aelod-wladwriaeth yr UE, wedi gostwng o'i gymharu â'r amcangyfrifon blaenorol. Cyflwynodd Eurostat fethodoleg ar gyfer dosrannu CNC y DU rhwng ei rhanbarthau, gan leihau'r gyfran o'r CNC sy'n mynd i'r rhanbarthau sydd â sectorau gwasanaethau ariannol bach (fel y Gorllewin a'r Cymoedd). Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi bod yn ystyried sail y fethodoleg newydd.

14. Mae'r cyfartaledd tair blynedd ddiweddaraf ar gyfer 2000 -2002 yn dangos bod y CNC y pen yn y Gorllewin a'r Cymoedd yn llai na 75 y cant o gyfartaledd 25 Aelod-wladwriaeth yr UE. Fodd bynnag, os bydd y penderfyniadau terfynol ar gyllideb yr UE a'r rheoliadau yn cael eu gwneud ar ddiwedd 2005 neu ar ddechrau 2006, ar ôl i'r data nesaf ar y CNC rhanbarthol gael ei gyhoeddi, data 2003 fydd cael ei gynnwys yng nghyfartaledd tair blynedd y CNC tra bydd ffigurau 2000 yn cael eu diystyru. Os gwelir yr un gwelliant yn 2003 ag yr oedd yn 2002, gallai CNC y Gorllewin a'r Cymoedd gynyddu i fwy na 75% o gyfartaledd 25 Aelod-wladwriaeth yr UE. Byddai hyn yn golygu y caiff y rhanbarth ei dynodi'n ardal Effaith Ystadegol, a byddai hyn yn lleihau'r gyfran o'r arian sydd ar gael iddi. Ar hyn o bryd, mae'n amhosibl dweud a fydd y Gorllewin a'r Cymoedd yn gymwys am y rhaglen Cydgyfeirio llawn. Mae Gweinidogion y DU yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa a'i goblygiadau i Gymru.

## Yr Egwyddorion ar gyfer Rhaglenni ar ôl 2006

15. Ar 14 Mawrth, cytunodd Is-bwyllgor y Cabinet ar Swyddi a Sgiliau ar gyfres o 'egwyddorion' ar gyfer unrhyw Gronfeydd Strwythurol y gallem eu cael ar ôl 2006. Cawsant eu cyflwyno gerbron Grwp y Rhanddeiliaid Allanol er mwyn cael eu sylwadau arnynt. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r egwyddorion hyn ar y cyfan, ac roedd sawl un o'r rhanddeiliaid, er eu bod yn dal eu tir, yn awyddus i drafod y manylion. Mae'r egwyddorion wedi'u nodi yn Atodiad A.

## Trafodaethau â Rhanddeiliaid Allweddol

16. Ers canol mis Mai, mae swyddogion WEFO wedi bod yn cynnal cyfarfodydd â chyrff ymbarél strategol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn eu hysbysu am y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer y cronfeydd strwythurol ar ôl 2006, a chael eu sylwadau ar sut i weithio gyda'u hetholaethau ehangach. Hyd yn hyn, cafwyd cyfarfodydd gydag uwch

gynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, CCAUC, y Comisiwn Cyfle Cyfartal ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn y cyfarfodydd hyn, trafodwyd y rheoliadau drafft, hynt trafodaethau'r Aelod-wladwriaethau, a'r cynigion ar gyfer creu grwpiau ffrwd gwaith i fwrw ymlaen â'r gwaith paratoi ar gyfer unrhyw raglenni newydd a allai fod ar gael. Mae cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu gyda chynrychiolwyr o'r sectorau addysg, amgylchedd a chyfle cyfartal, ynghyd â TUC Cymru.

17. Y prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg hyd yn hyn yw bod angen symleiddio pethau, a chynnwys rhanddeiliaid mewn ffordd effeithiol. Croesawyd y syniad o greu gweithgorau bach gyda nifer fach o gynrychiolwyr. Er bod strwythurau partneriaethau yn fwy effeithiol ers y newidiadau a wnaed yn sgil yr adolygiad canol tymor, mae angen eu hadolygu ymhellach. Mae'r rhanddeiliaid yn deall bod angen cydweddu strategaethau, ac yn cydnabod mai prin fydd nifer y prosiectau y gellir eu rhagnodi i sicrhau gwariant cynnar.

## Y cynigion ar gyfer meysydd gwaith

18. Mae WEFO'n bwriadu pennu nifer o ffrydiau gwaith i fwrw ymlaen ag unrhyw raglenni newydd, ni waeth beth fo'r ffynhonnell ariannol. Byddai hyn yn fodd i gydweithio â rhanddeiliaid allanol penodol ar faterion penodol. Bwriedir ffurfio nifer fach o 'weithgorau' sy'n cynnwys unigolion sydd â syniadau ac arbenigedd i'w cynnig. Byddai'r grwpiau hyn yn gymharol fach, gyda rhwng 5-10 o aelodau, ac yn cael eu rheoli gan WEFO. Bydd manylion y ffrydiau gwaith arfaethedig yn cael eu trafod yng nghyfarfod Grwp y Rhanddeiliaid Allanol ar 21 Gorffennaf.

## Goblygiadau ariannol

19. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r papur hwn. Bydd y gost o reoli'r ffrydiau gwaith yn cael ei thalu o'r gyllideb bresennol ar gyfer costau gweinyddol. Mae swyddogion Cynllunio a Rheoli Cyllideb y Rhaglenni wrthi'n cynnal trafodaethau ag Adran Gyllid WEFO, a bydd mwy o wybodaeth ar gael cyn gynted ag y bydd y dyraniadau cyllid a goblygiadau unrhyw raglenni newydd yn wybyddus. Maent yn ymwybodol bod y cynllunio ariannol ar gyfer y cyfnod ar ôl 2006 yn dechrau gyda phroses SR2006. Y rhif cyfeirio ariannol yw BP 886.

## Themâu Trawsbynciol

20. Mae'r themau trawsbynciol cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn berthnasol i bob gweithgarwch sy'n ymwneud â'r Cronfeydd Strwythurol. Rhaid i bob prosiect sy'n gwneud cais am gyllid o dan y rhaglenni presennol, ac yn derbyn cyllid, ymdrin â'r tair thema hon gan ddangos sut y maent yn dylanwadu ar y prosiect neu'n cael eu hystyried ganddo. Mae'r rheoliadau'n rhagweld y bydd Datblygu Cynaliadwy a Chyfle Cyfartal yn berthnasol i raglenni'r dyfodol, fel ag y maent yn awr. Cychwynnwyd prosiect ymchwil ar ddechrau mis Gorffennaf ar effaith y tair thema hon ar brosiectau yn ystod y cylch presennol o raglenni, ac un o'i amcanion yw llunio

argymhellion ar gyfer unrhyw raglenni yn y dyfodol.

## Atodiad A - Prif Egwyddorion ar gyfer Rhaglenni'r Dyfodol ar Ddatblygu Rhanbarthol

1. Dylai'r Rhaglenni gael eu datblygu yng nghyd-destun dogfennau polisi a strategol Llywodraeth y Cynulliad: Cymru: Gwlad Well; Cynllun Gofodol Cymru; Cymru'n Ennill; a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005.

2. Dylai'r Rhaglenni gwmpasu agendâu Lisbon a Gothenburg. Mae hyn yn awgrymu y bydd y Rhaglenni'n fwy cyfyng nag y maent ar hyn o bryd, gyda mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau a chefnogaeth i'r economi wybodaeth.

3. Dylai fod mwy o bwyslais ar brosiectau y mae angen strategol amdanynt. Dylai'r fframwaith ar gyfer hyn fod yn seiliedig ar bolisïau Llywodraeth y Cynulliad fel AWW, a dylid ystyried yr anghenion lleol a nodwyd gan y strategaethau rhanbarthol a ddatblygwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru er enghraifft.

4. Dylai fod llai o brosiectau, ond gwell ymyriadau; a dylai'r ymyriadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth bendant.

5. Dylai strwythur y Rhaglenni Gweithredol a'u prosesau fod yn symlach o lawer - os yn bosibl dylid eu cyfyngu i rai blaenoriaethau er mwyn sicrhau cymaint o hyblygrwydd â phosibl.

6. Dylai fod mwy o bwyslais ar gydweithio rhanbarthol wrth ddatblygu strategaethau a phrosiectau ee rhaglen Blaenau'r Cymoedd.

7. Dylid achub ar y cyfle i symleiddio'r ffrydiau ariannu yn Llywodraeth y Cynulliad, yn enwedig arian cyfatebol. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ragariannu cyfatebol a chyd-ariannu. Hefyd, lle y bo'n bosibl, dylai ymyriadau'r Cronfeydd Strwythurol gefnogi polisïau Llywodraeth y Cynulliad a'r ffordd y cânt eu gweithredu trwy'r dulliau ariannu presennol.

8. Dylai'r rhaglenni hyn gael eu gweithredu trwy strwythurau partneriaeth priodol ac effeithlon.

9. Dylai fod proses gadarn o'r cychwyn cyntaf ar gyfer monitro a gwerthuso'r prosiectau a'r rhaglenni.

Andrew Davies AC

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth